DRAFFT

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Dydd Iau, 12 Gorffennaf 2018<br>Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe |
| **Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Clare Pillman (Prif Weithredwr)<br>Karen Balmer (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC))<br>Chris Blake<br>Howard C. Davies<br>Dr Ruth Hall<br>Dr Madeleine Havard (Is-gadeirydd)<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Andy Middleton (Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Nigel Reader<br>Syr Paul Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth) |
| **Aelodau o'r staff yn bresennol:** | Ceri Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu)<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Kevin Ingram (Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)<br>Tim Jones (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Canolbarth a'r Gogledd)<br>Gareth O'Shea (Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De)<br>Catherine Love (Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth)<br>Howard Davies (Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio)<br>Paul Gibson (Arweinydd y Tîm Rheoleiddio Diwydiant, Gweithrediadau'r De) – Eitem 2<br>Rob Bell (Pennaeth Cyllid) – Eitem 3<br>Michelle Van-Velzen (Arweinydd y Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy) – Eitem 5<br>Chris Tucker (Ymgynghorydd Coedwigaeth Technegol – Cydnerthedd) – Eitem 5<br>Peter Gough (Prif Gynghorydd Pysgodfeydd) – Eitem 6 |
| **Ymddiheuriadau:** | Niall Reynolds (Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid) |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Noemi Maria Donigiewicz<br>Nia Wyn Lloyd<br>Rachel Rees |

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

## 1. Busnes Safonol y Bwrdd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Niall Reynolds.

**Datganiadau o fuddiannau**

1.3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd. **NODWYD** nad yw Nigel Reader ar Fwrdd Natural England mwyach, nac yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg DEFRA.

**Cofnodion y Bwrdd**

1.4 Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod busnes y Bwrdd ar gyfer mis Mai 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Amlygwyd nifer o fân wallau teipio, i'w cywiro gan yr Ysgrifenyddiaeth.

***CAM GWEITHREDU:*** *Unrhyw fân gywiriadau i'w hanfon at yr Ysgrifenyddiaeth.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Pawb; erbyn 13.07.18*

**Cofnodion camau gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru**

1.5. Eitem 8. Fforwm Rheoli Dŵr: gwaith ar droed i sefydlu'r Fforwm Rheoli Dŵr; rhaid adrodd ar gynnydd a rhannu'r cylch gorchwyl gyda'r Bwrdd.

***CAM GWEITHREDU:*** *Dosbarthu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Fforwm Rheoli Dŵr i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi; i'w ystyried o dan Ddiweddariadau gan Is-grwpiau*
***GWEITHREDU GAN:*** *Ceri Davies;* yr *ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

1.5. Eitem 10. Heb ei chyflawni. Roedd digwyddiad rhanddeiliaid Abertawe yn rhan o'n hymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid. Gofynnodd y Bwrdd i'r Strategaeth a'r Cynlluniau ar gyfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gael eu trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

***CAM GWEITHREDU:*** *Rhoi'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Ysgrifenyddiaeth; Catherine Love; ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

1.5. Eitem 13. Mae Ruth Hall wedi bod mewn cyswllt ag Annie Payne i ddatblygu ymrwymiad aelodau'r Bwrdd ym Menter Ddementia Gyfeillgar Cyfoeth Naturiol Cymru.

***CAM GWEITHREDU:*** *Diweddariad yng nghyfarfod bwrdd mis Medi.*
***GWEITHREDU GAN:****Ruth Hall; ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

**Materion eraill a godwyd**

1.6 Mae angen i'r Bwrdd drafod a chytuno ar gyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

***CAM GWEITHREDU:*** *Trafod yn niwrnod cwrdd i ffwrdd y Bwrdd.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Cadeirydd; ar gyfer diwrnod cwrdd i ffwrdd y Bwrdd ym mis Awst.*

1.7 Mae angen cwblhau a chymeradwyo'r Cynlluniau Dirprwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

***CAM GWEITHREDU:*** *Rhoi'r Cynllun Dirprwyo Ariannol a'r Cynllun Dirprwyo Anariannol ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd.*
***GWEITHREDU GAN****: Ysgrifenyddiaeth; Kevin Ingram; ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

## 2. Cyflwyniad ar Faterion Lleol
**CYFLWYNIAD ER GWYBODAETH**

2.1 Rhoddodd Paul Gibson gyflwyniad o'r enw: *Gweithio gyda'n gilydd i gael de-orllewin Cymru cynaliadwy*

2.2 Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r canlynol:
- Seilwaith Gwyrdd fel rhan hanfodol o gynllunio
- Cynnal cysylltiadau rhwng cymunedau
- Casglu tystiolaeth ar gyfer datganiadau ardal
- Cynghori a galluogi diwydiannau i leihau allyriadau niweidiol ac annog arloesedd
- Rheoli perygl llifogydd
- Ein rôl mewn gwella ansawdd aer ym Mhort Talbot a'n rheoliadau ar gyfer gwaith dur (sy'n effeithio ar > 25,000 o bobl). Mae mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yn un o ofynion allweddol y Llythyr Gorchwyl ac yn un o'r nodau hanfodol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwella diogelwch dŵr a llwybrau pysgod yng Nghored y Parc Gwyrdd
- Y diwydiant bwyd a diod a'i berthynas ag amaethyddiaeth
- Risgiau economaidd a llygredd dyfrffordd Aberdaugleddau
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol

2.3 Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd deall effeithiau gwahanol sectorau, a sut i leihau risgiau i'n hamgylchedd. Croesawyd cyfleoedd i weithio trwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn modd cadarnhaol.

2.4 Diolchodd y Bwrdd i Paul am ei gyflwyniad rhagorol, a amlygodd ymrwymiad staff Cyfoeth Naturiol Cymru a'u cyraeddiadau wrth weithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid.

## 3. Papur Diweddariad Cyllid NRW B B 20.18
**PAPUR AR GYFER GWAITH CRAFFU**

3.1 Cyflwynodd Rob Bell ddiweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

3.2 Cafodd yr adolygiadau i'r gyllideb ar gyfer Chwarter 1 eu hystyried. **NODWYD** cywiriadau i'r tabl ym Mharagraff 12. Roedd y diwygiadau'n ymwneud yn bennaf â mwy o arian na'r disgwyl yn cael ei ddwyn ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn. Cadarnhaodd y Bwrdd y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ystyried adolygiad y Tîm Gweithredol ar danwariant mewn rhai cyllidebau yn ystod 2017/18.

***CAM GWEITHREDU:*** *Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i drafod adolygiad y Tîm Gweithredol ym mis Medi.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Yr Ysgrifenyddiaeth*; *Kevin Ingram; erbyn cyfarfod mis Medi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.*

3.3 Craffwyd ar y perfformiad ariannol ar gyfer 2017/18, a **NODWYD** y cynnydd mewn incwm a'r tanwariant ar y gyllideb. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddiwygio'r Cytundeb Fframwaith gyda hi er mwyn galluogi'r cynnydd yn yr hyn a oedd yn cael ei ddwyn ymlaen. Nodwyd ystod o bwysau heb eu hariannu yn y papur, y byddai'r Tîm Gweithredol yn rhoi blaenoriaeth gyllidebol iddynt. Amlygodd y Bwrdd fuddsoddi yn y Cynllun Gweithredu Diogelwch Coedwigoedd fel blaenoriaeth.

3.4 Gofynnwyd am gymeradwyaeth i wario mwy o arian ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Pontarddulais. Cadarnhaodd Madeleine Havard fod y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn ymwybodol o'r problemau gyda'r Cynllun Lliniaru Llifogydd cymhleth hwn, ac roedd y cais manwl am wariant ychwanegol (Ffurflen G) wedi'i graffu arno ac argymhellwyd ei fod yn cael ei gymeradwyo. **CYMERADWYWYD** y gwariant ychwanegol; gwnaeth y Bwrdd ofyn i adolygiad gael ei gynnal a'r gwersi a ddysgwyd i gael eu bwydo'n ôl i'r Bwrdd.

***CAM GWEITHREDU:*** *Cynnal adolygiad o'r prosiect, y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd i ystyried y gwersi a ddysgwyd yng nghyfarfod mis Hydref, ac yna bwydo'r rhain yn ôl i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Ceri Davies / Jeremy Parr; Madeleine Havard / Elizabeth Haywood; erbyn cyfarfod mis Hydref y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd; Ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Tachwedd.*

3.5 **NODODD** y Bwrdd yr eitemau yr anfonwyd at Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

3.6 **NODODD** y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn derbyn y drafft terfynol o'r adroddiad a chyfrifon blynyddol i'w gymeradwyo yn ystod ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2018.

3.7 **NODODD** y Bwrdd fod y tîm Adolygu Taliadau'n gweithio ar gynigion ar gyfer 2019/20, ac roedd y staff yn bwriadu cwrdd â'r Grŵp Rhanddeiliaid ar ddechrau mis Awst.

Bydd y cynigion wedyn yn dod i'r Is-grŵp Adolygu Taliadau i'w trafod. Amlygwyd pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am newidiadau posibl i'r cynllun presennol.

## 4. Materion Llywodraethu

**CRAFFU**

**Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth:** NRW B B 21.18

4.1. **NODODD** y Bwrdd yr adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan Paul Williams, Cadeirydd y Pwyllgor, a **CHADARNHAWYD** y cofnodion a gyflwynwyd o Bwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth mis Mawrth 2018.

4.2. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai Zoë Henderson fyddai Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth ym mis Medi, a diolchodd i Paul Williams am ei ymrwymiad a'i waith caled fel cadeirydd y pwyllgor hwn ers sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg:** NRW B B 25.18

4.3 Cyflwynodd Tim Jones yr adroddiad ar ran Ashleigh Dunn. Gwnaeth y Bwrdd groesawu a **CHYMERADWYO** yr Adroddiad Blynyddol.

4.4 Calonogwyd y Bwrdd gan y camau a'r gweithrediadau cadarnhaol oedd wedi eu cyflawni i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer y Gymraeg, ac mae'n parhau i weithio tuag at ein nod o fod yn sefydliad dwyieithog. Diolchwyd i aelodau'r tîm am eu gwaith caled.

**Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch:** NRW B B 22.18 / NRW B B 23.18 / NRW B B 24.18

4.5 Gwnaeth y Bwrdd **GYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch a Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2018–21. Trafododd y Bwrdd sut dylai uchelgais Cyfoeth Naturiol Cymru i ymwreiddio newidiadau, a gwneud cynnydd ar lesiant, iechyd a diogelwch gynnwys Safonau Iechyd Corfforaethol, a chyfrifoldeb personol, yn ogystal â chydnabod cyfraniad bob dydd y staff. Amlygwyd pwysigrwydd dyrannu cyllid priodol ar gyfer y gwaith hwn.

4.6 **NODODD** y Bwrdd ei gyfrifoldeb a'i rôl arweiniol o ran cefnogi gwaith llesiant, iechyd a diogelwch Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.7 Gan mai hwn oedd cyfarfod Bwrdd diwethaf Ashleigh Dunn cyn gadael Cyfoeth Naturiol Cymru, diolchodd y Bwrdd iddi am ei gwaith caled a'i hymrwymiad fel Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** NRW B B 26.18

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

4.8 **NODODD** y Bwrdd adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan Karen Balmer, cadeirydd y pwyllgor, a **CHADARNHAWYD** y cofnodion a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Mawrth 2018 y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

4.9 **NODODD** y Bwrdd y bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cadarnhau'r adroddiad a chyfrifon blynyddol ar gyfer 2017/18, ynghyd â'r Llythyr Argymhelliad, yn ystod eu cyfarfod arbennig ar 13 Gorffennaf 2018.

4.10 **NODODD** y Bwrdd swm y gwaith a oedd wedi'i wneud gan y pwyllgor hwn, a diolchodd i Karen Balmer, Nigel Reader ac aelodau eraill y pwyllgor am eu hymrwymiad.

**Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd**

4.11 **NODODD** y Bwrdd yr adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan Madeleine Havard, cadeirydd y grŵp. Bydd cofnodion ffurfiol cyfarfod mis Mai'r Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd yn dod i'r Bwrdd i'w cadarnhau ym mis Tachwedd.

4.12 **NODODD** y Bwrdd newid yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli ei dyraniad cyfalaf ar gyfer prosiectau rheoli perygl llifogydd, a allai effeithio ar raglen rheoli perygl llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig**

4.13 Nid oedd y Pwyllgor wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Gwnaeth Andy Middleton, cadeirydd y pwyllgor, amlygu uchelgais y pwyllgor i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gefnogi cyflawniad y Cyfeiriad Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth [*Natur Hanfodol*], er enghraifft trwy gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ymdriniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o safleoedd gwarchodedig.

***CAM GWEITHREDU:*** *Trefnu cyfarfod anstatudol i drafod cefnogi'r gwaith o gyflawni Natur Hanfodol.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Ceri Davies / Andy Middleton i gynllunio dyddiad y cyfarfod; erbyn cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

**Fforwm Rheoli Tir Cymru**

4.14 Cyflwynodd Zoë Henderson adroddiad ar lafar: bydd gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru'n cael ei arddangos yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Bwrdd ym mis Medi.

***CAM GWEITHREDU:*** *Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Yr Ysgrifenyddiaeth*; *Zoë Henderson erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.*

**Is-grŵp Menter** NRW B B 27.18

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

4.15 **NODODD** y Bwrdd yr adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan Kevin Ingram, cadeirydd yr is-grŵp.

**Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur**
4.16 **NODODD** y Bwrdd yr adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan Madeleine Havard, cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

## 5. Adolygiad o'r Defnydd o Arfau Tanio ar Dir a Reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

NRW B B 28.18
**PAPUR A CHYFLWYNIAD AR GYFER PENDERFYNIAD**

5.1 Ymunodd Michelle Van-Velzen a Chris Tucker y cyfarfod i gyflwyno cefndir a chanlyniadau'r adolygiad.

5.2 **NODODD** y Bwrdd fod y Prif Swyddog Gweithredol wedi derbyn llythyr gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ers i bapurau'r Bwrdd gael eu dosbarthu, a oedd yn nodi sefyllfa polisi Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn.

5.3 **CYTUNWYD** y dylai'r Bwrdd ddilyn y broses briodol a gwneud ei benderfyniadau ar sail argymhellion yr adolygiad, cyn ystyried goblygiadau llythyr y Gweinidog, a'r ffyrdd ymlaen.

5.4 Dechreuodd yr adolygiad yn 2016, yn dilyn cais gan y Bwrdd am adolygiad ffurfiol o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, yn sgil diben newydd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r egwyddorion o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gwnaeth yr adolygiad ganolbwyntio ar dri maes:

i. Defnydd Cyfoeth Naturiol Cymru o arfau tanio er mwyn rheoli rhywogaethau gwyllt
ii. Trwyddedau pobl eraill er mwyn rheoli rhywogaethau gwyllt
iii. Y tiroedd ar les a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer defnyddio arfau tanio

5.5 Nid oedd hwn yn adolygiad o bolisi cyhoeddus ar ddefnyddio arfau tanio. Cafodd Llywodraeth Cymru, fel perchennog y tir, ei diweddaru'n gyson trwy gydol yr adolygiad.

5.6 Disgrifiwyd sut y rheolwyd yr adolygiad: cafodd Cynllun y Prosiect ei ddatblygu a'i gyflawni gan fwrdd prosiect staff mewnol, a'i oruchwylio gan grŵp gorchwyl a gorffen Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaeth yr adolygiad ystyried gweithgareddau ar 128,000 hectar o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a 54 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol; nid oedd yn cynnwys tir lle y rheolwyd yr hawliau saethu gan eraill.

5.7 Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth; ymgysylltwyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a llwyddwyd i gael llawer o adborth. Yn ystod yr alwad am dystiolaeth 12 wythnos o hyd yn 2016, derbyniwyd dros 250 o ddarnau o dystiolaeth. Cafodd y dystiolaeth ei hystyried gan banel o staff arbenigol o wahanol rannau o'r sefydliad. Penodwyd dau adolygwr academaidd allanol er mwyn sicrhau'r broses o gasglu tystiolaeth

a helpu i nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth. Defnyddiwyd y dystiolaeth i ddod i gyfres o argymhellion, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhain wedyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2018. Cafodd y dystiolaeth ategol a gyflwynwyd ac a ddefnyddiwyd i ddod i'r argymhellion hyn ei gwneud yn gyhoeddus. Cafwyd 4,700 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a defnyddiwyd offeryn arolygu ar-lein er mwyn galluogi dadansoddiad manwl. Cafodd pob ymateb ei ystyried. Er i gwmpas yr adolygiad ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a diben cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd llawer o'r ymatebion yn ymwneud â llesiant anifeiliaid, moeseg a moesoldeb gweithgareddau. Cynhaliodd y tîm adolygu gyfarfodydd â sefydliadau â diddordeb, a gwnaethant gydnabod deisebau ac arolygon a gwblhawyd gan sefydliadau â diddordeb yn ystod cyfnod yr adolygiad.

5.8 Wedi hyn, cafodd yr argymhellion o'r adolygiad eu cyflwyno i'r Bwrdd:

**Argymhelliad 1:** *Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ddefnyddio arfau tanio wrth reoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar y tir mae'n ei reoli i gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n gyson â'n hamcanion rheoli tir a'n diben.*
Pwysleisiwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n dilyn yr egwyddorion rhyngwladol ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol, bod rheoli rhywogaethau gwyllt yn broses reoli ymaddasol, a bod effeithiau rheoli o'r fath yn cael eu hadolygu'n gyson.

**Argymhelliad 2**: *Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.*
Pwysleisiwyd bod angen cyfiawnhad clir dros unrhyw gais; rhaid iddo gydymffurfio â'r gyfraith a rhaid iddo gyd-fynd â'r holl amodau a osodwyd ar y drwydded.

**Argymhelliad 3**: *Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ystyried prydlesu hawliau at ddibenion saethu ffesantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio fesul achos.*
Pwysleisiwyd mai materion amgylcheddol oedd yn mynd â bryd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bennaf. Ni fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n mynd ati'n weithredol i geisio prydlesu hawliau, ond byddai unrhyw geisiadau'n cael eu hystyried fesul achos. Byddai unrhyw brydlesi a gynigiwyd yn destun nifer o amodau, gan gynnwys cydymffurfio â chodau ymarfer priodol (a nodwyd).

**Argymhelliad 4**: *Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ddefnyddio bwledi plwm ond bydd yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y dewisiadau gwahanol.*
Amlygwyd bod gan arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon ynghylch effeithlonrwydd dewisiadau eraill cyfredol, ond byddant yn parhau i'w hadolygu.

5.9 Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad:

i. Amlygwyd pwysigrwydd sefydlu fframwaith ar gyfer profi ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi'u Cadarnhau

ii. Cydnabu'r diddordeb byd-eang, ac amlygwyd yr angen i ganolbwyntio ar yr hyn sydd orau i Gymru
iii. Amlygwyd pwysigrwydd annog gwaith ymchwil pellach a chasglu tystiolaeth yn barhaus (e.e. ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2) ar bob agwedd ar y pwnc
iv. Mae angen egluro'r costau sy'n ymwneud â thrwyddedu a'r newidiadau posibl i drwyddedau cyfredol
v. Dylid cyflwyno'r angen am amserlenni clir ar gyfer adolygiadau (e.e. i ystyried unrhyw dystiolaeth ac ati), e.e. bob blwyddyn / bob dwy flynedd ac ati
vi. Amlygwyd pa mor bwysig oedd hi i'r holl sefydliad ddysgu gwersi o'r broses a'r dull gweithredu newydd

**PENDERFYNIAD** – Gwnaeth y Bwrdd drafod a **CHYMERADWYO** pob un o'r pedwar argymhelliad (gweler 5.8 uchod), gan gefnogi'r pwyntiau atodol a godwyd (yn 5.8 uchod) a gofyn i ystyried pwyntiau ychwanegol (a godwyd yn 5.9 uchod).

5.10 Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am eu dull proffesiynol a thrwyadl o gyflawni'r adolygiad.

5.11 Cydnabu'r cadeirydd y diddordeb cyhoeddus enfawr yn yr adolygiad, a chadarnhaodd fod yr ohebiaeth a gyfeiriwyd at y Bwrdd wedi'i dosbarthu i aelodau'r Bwrdd.

5.12 Wedi cymeradwyo'r holl argymhellion, gwnaeth y Bwrdd ystyried y llythyr gan Weinidog dros yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru, a oedd yn nodi sefyllfa polisi Llywodraeth Cymru, sef: nid yw'n cefnogi saethu ffesantod am hamdden ar Ystad Llywodraeth Cymru.

5.13 **NODWYD** bod yr eglurhad hwn o bolisi Llywodraeth Cymru, sy'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ei roi ar waith, yn effeithio ar Argymhelliad 3 yr adolygiad o ran unrhyw geisiadau am brydlesi yn y dyfodol, ac o bosibl ar brydlesi cyfredol. Gofynnodd y Bwrdd i'r Weithrediaeth weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut i roi'r polisi hwn gan Lywodraeth Cymru ar waith.

***CAM GWEITHREDU:*** *Y Weithrediaeth i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut i roi'r polisi hwn gan Lywodraeth Cymru ar waith, a dod â chynigion yn ôl i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.*
***GWEITHREDU GAN:*** *Ceri Davies cyn cyfarfod Bwrdd mis Medi;* yr *Ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfod Bwrdd mis Medi.*

**6. Rheolaethau Pysgota Newydd ar gyfer Afonydd Trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy** NRW B B 29.18
**PAPUR AR GYFER PENDERFYNIAD**

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

6.1 Ymunodd Peter Gough â'r cyfarfod i gyflwyno'r cefndir ar gyfer y rheolaethau pysgota newydd arfaethedig, ac i gael cymeradwyaeth y Bwrdd ar yr argymhellion.

6.2 Cafodd y Bwrdd ei atgoffa bod y cynnig hwn yn un o gyfres o dri a oedd wedi ei hanelu at amddiffyn y stociau o eogiaid a brithyllod y môr dan fygythiad yng Nghymru.

i. Roedd y cynnig cyntaf, a oedd yn ymwneud ag is-ddeddfau pysgota gwialen a rhwyd ar afonydd yng Nghymru yn unig, wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 17 Ionawr 2018.
ii. Roedd yr ail gynnig, a oedd yn ymwneud ag is-ddeddfau ar Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, wedi cwblhau ei ymgynghoriad cyhoeddus (yng Nghymru a Lloegr) ar 5 Chwefror 2018, a hwn yw testun y papur sydd wedi'i gyflwyno gerbron y Bwrdd heddiw.
iii. Roedd y trydydd cynnig, a oedd yn ymwneud ag is-ddeddfau ar Afon Hafren, o dan ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd (yng Nghymru a Lloegr), y byddai'n cau ar 12 Medi 2018.

6.3 **NODWYD** bod angen cadarnhau'r cynnig cyntaf Cymru gyfan (6.2.i uchod) cyn rhoi'r ddau gynnig nesaf ar waith (os cânt eu cymeradwyo). Cafodd y cais ar gyfer yr is-ddeddfau newydd arfaethedig dros Gymru gyfan ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018, ond roedd yn parhau i aros am gytundeb Llywodraeth Cymru.

6.4 **NODWYD** y byddai'r cynnig ar gyfer Afon Dyfrdwy yn cyflwyno is-ddeddfau (dal a rhyddhau a rheolaethau dull) am ddeng mlynedd (gydag adolygiad llawn ar ôl pum mlynedd), ac yn cyflwyno is-ddeddfau ar gyfer Afon Gwy (rheolaethau dull) am dair blynedd (i gyd-fynd â diwedd is-ddeddfau dal a rhyddhau cyfredol Afon Gwy).

6.5 **NODWYD** bod yr is-ddeddfau arfaethedig yn cefnogi dull dalgylch integredig yn afonydd trawsffiniol Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, a bod angen bod yn gyson ag Asiantaeth yr Amgylchedd.

6.6 **NODWYD** bod camau wedi'u cymryd i ddysgu o'r trafodaethau ar y cynnig cyntaf: ceisio ailadeiladu ffydd y sector pysgota yn Cyfoeth Naturiol Cymru; gwella gwaith partneriaeth; gwella cyfathrebiadau.

6.7 **NODWYD** bod y camau gweithredu ers mis Ionawr wedi cynnwys y canlynol:
i. gweithio gyda naw grŵp pysgodfeydd lleol ledled Cymru
ii. gweithio gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru i leihau amlder yr achosion o lygredd amaethyddol mewn afonydd
iii. pedwar Cynllun Adfer Afonydd wedi'u comisiynu gan sefydliadau partner, gyda phump mwy ar droed eleni, a chynlluniau gwaith yn cael eu sefydlu
iv. gwaith caboli technegol, gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a CEFAS, ar y broses asesu stoc

v. hybu genweirio yng Nghymru
vi. gweithio i sefydlu Grŵp Pysgodfeydd Cymru gyfan

6.8 Gwnaeth y Bwrdd drafod y cynnig a'r diweddariad, gan amlygu pwysigrwydd y canlynol:

i. ymglymiad ac ymrwymiad llawn yr holl bartïon dylanwadol â diddordeb, e.e. grwpiau pysgota ac afonydd, ffermwyr, cyrff anllywodraethol ac ati, gan weithio gyda phobl i gyflawni canlyniadau ar y cyd
ii. casglu a dadansoddi data (er enghraifft, ansawdd dŵr), a sut y defnyddir hwn mewn tystiolaeth
iii. cyfathrebu clir ac eang gyda phob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru

**6.9 PENDERFYNIAD** – Gwnaeth y Bwrdd **GYMERADWYO'R** cynigion am is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota â gwialen am eogiaid a brithyllod y môr ar Afon Dyfrdwy ac Afon Gwy, a bod cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gadarnhad.

## 7. Unrhyw Faterion Eraill

7.1 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

## 8. Diwedd y Cyfarfod Ffurfiol

8.1 Diolchodd y cadeirydd i'r holl staff am eu cyflwyniadau o safon uchel a'u mewnbwn yn y cyfarfod, ac i holl aelodau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth am eu rhan yn y trafodaethau. Daeth y cyfarfod ffurfiol i ben.

# Cofnodion y Bwrdd wedi’u Cadarnhau

**9. Cwestiynau/Sylwadau gan y Cyhoedd**

9.1 Gwahoddwyd yr aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau ar y cyfarfod. Cadarnhawyd y byddai unrhyw gwestiynau technegol, a'r rhai hynny a oedd wedi'u gofyn mewn gohebiaeth cyn y cyfarfod, yn cael eu hateb y tu allan i'r cyfarfod.

9.2. Diolchodd Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cymru y Gynghrair Cefn Gwlad, i Cyfoeth Naturiol Cymru am yr adolygiad cadarn, trwyadl a thryloyw o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mynegodd bryder nad oedd y llythyr o'r Gweinidog a dderbyniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyd-fynd â'r adborth yr oedd y Gynghrair Cefn Gwlad wedi'i dderbyn mewn cyfarfod diweddar a gynhaliwyd â Llywodraeth Cymru. Gwnaeth Ms Evans hefyd adrodd ei dealltwriaeth y byddai Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adolygu'r ffordd yr ymdriniwyd â deisebau.

9.3 Nododd Frank Jones, Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru a Chadeirydd Afonydd Cymru, y problemau o ran llygredd amaethyddol cronig ac acíwt mewn afonydd yng Nghymru, a chalonogwyd ef gan y ffaith fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd y tu hwnt i reoliadau, gan gefnogi gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru er enghraifft. Amlygodd y broblem o ran dwysedd cynyddol cynhyrchu bwyd, a gofynnodd i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ganolbwyntio ar gyngor cynllunio i awdurdodau lleol.

9.4 Diolchodd Richard Garner Williams, Cadwraeth Eogiaid a Brithyllod y Môr, i Cyfoeth Naturiol Cymru am ei ymgysylltiad cynyddol â buddiannau pysgota a physgodfeydd, gan amlygu'r angen i weithredu nawr a chyflymu'r amser y mae'n ei gymryd i gynlluniau gael eu gweithredu. Croesawodd sefydliad y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod a'r Grŵp Strategaeth Genweirio.